| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r:** | Pwyllgor Llywodraethu Corfforaethol |
| **Dyddiad y Cyfarfod:** | 27 Ebrill 2016 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol:** | Julian Thompson-Hill - Aelod Arweiniol dros Gyllid, Cynllun Corfforaethol a Pherfformiad<br>Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Awdur yr Adroddiad:** | Ivan Butler – Pennaeth Archwilio Mewnol |
| **Teitl:** | Cynllun Sicrwydd Blynyddol Archwilio Mewnol 2016-17 |

**1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?**

Mae'r adroddiad hwn yn darparu'r Pwyllgor â Chynllun Sicrwydd Blynyddol Archwilio Mewnol ar gyfer 2016-17. Mae'r Cynllun yn darparu manylion y prosiectau Archwilio Mewnol arfaethedig ar gyfer y flwyddyn a fydd yn caniatáu i'r Pennaeth Archwilio Mewnol i ddarparu 'barn' ar ddigonolrwydd ac effeithiolrwydd fframwaith lywodraethu, risg a rheolaeth y Cyngor yn ystod y flwyddyn.

**2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?**

Mae Safonau Archwilio Mewnol y Sector Cyhoeddus (PSIAS) yn ei gwneud yn ofynnol i'r 'prif swyddog archwilio' ddatblygu cynllun archwilio mewnol yn seiliedig ar risg sy'n cymryd i ystyriaeth y gofyniad i ddarparu barn ac adroddiad archwilio mewnol blynyddol y gall y sefydliad ei ddefnyddio i lywio ei ddatganiad llywodraethu . Mae cylch gorchwyl y Pwyllgor hwn angen iddo ystyried cynlluniau archwilio mewnol.

**3. Beth yw'r Argymhellion?**

Bod y Pwyllgor yn cymeradwyo Cynllun Sicrwydd Blynyddol Archwilio Mewnol 2016-17 (Atodiad 1)

**4. Manylion yr Adroddiad**

Mae'r Cynllun yn Atodiad 1 yn darparu cefndir i'r gwasanaeth archwilio mewnol ynghyd â'r cynllun gwaith arfaethedig ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar asesiad risg ac ymgynghori â gwasanaethau.

Bydd y cynllun gwaith arfaethedig yn caniatáu i'r Pennaeth Archwilio Mewnol ddarparu 'barn' yn gyffredinol yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2016-17. Bydd y Pwyllgor yn derbyn adroddiadau diweddaru rheolaidd ar gynnydd darparu'r Cynllun.

**5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?**

Nid oes angen gwneud penderfyniad ynglŷn â'r adroddiad hwn. Nid oes cyfraniad uniongyrchol at y Blaenoriaethau Corfforaethol, ond bydd rhai prosiectau yn y Cynllun yn adolygu meysydd Blaenoriaeth Corfforaethol ac yn darparu sicrwydd ar eu darpariaeth.

**6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?**

Amherthnasol – nid oes penderfyniad na chostau yn gysylltiedig â'r adroddiad hwn.

7. **Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb (AEC) a gynhaliwyd ar y penderfyniad? Dylai fod templed o’r Asesiad o Effaith ar Gydraddoldeb wedi ei lenwi a’i atodi i'r adroddiad.**

Nid oes angen penderfyniad na chynnig ar gyfer newid mewn perthynas â'r adroddiad hwn, felly nid oes unrhyw effaith ar bobl sy'n rhannu nodweddion sydd wedi eu gwarchod.

8. **Pa ymgynghoriadau a gynhaliwyd gyda’r Pwyllgorau Archwilio ac eraill?**

Mae Pennaeth Archwilio Mewnol wedi cyfarfod â thimau rheoli'r holl wasanaethau i drafod gwaith arfaethedig Archwilio Mewnol.

9. **Datganiad y Prif Swyddog Cyllid**

Nid oes unrhyw oblygiadau ariannol ynghlwm wrth yr adroddiad hwn.

10. **Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?**

Gall methu â chyflwyno lefel ddigonol o archwilio mewnol olygu na all y Pennaeth Archwilio Mewnol roi 'barn' flynyddol ar ba mor ddigonol ac effeithiol yw fframwaith y Cyngor ar gyfer llywodraethu, risg a rheolaeth yn ystod y flwyddyn. Byddai hyn o bosibl yn arwain at broblem llywodraethu sylweddol yn cael ei chodi yn 'natganiad llywodraethu blynyddol’ y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol.

11. **Pŵer i wneud y Penderfyniad**

Amherthnasol - nid oes angen penderfyniad gyda'r adroddiad hwn.